



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

## Tŷ Lafant

### Uned Aseu a Thriniaeth



### Gwybodaeth:



Dyma wybodaeth am aros yn Nhŷ Lafant.



Gallwch gysylltu â ni i ofyn unrhyw  
gwestiynau ar:

**01633 623619**

## Croeso i Dŷ Lafant:



Rydym yn uned asesu a thriniaeth.



Rydym yn helpu oedolion ag anableddau dysgu drwy gyfnodau anodd.



Rydym yn helpu pobl i deimlo'n well.

## Lleoedd yn Nhŷ Lafant:



Mae gennym ni 7 ystafell wely.

Bydd gennych eich ystafell wely eich hun.



Mae gan 2 ystafell wely eu hystafell ymolchi eu hunain

Mae gennym ystafelloedd ymolchi i'w rhannu sy'n addas i bawb.



Mae gennym ystafell ddydd i bawb.

Gallwch ymlacio yn yr ystafell ddydd.

Gallwch wneud pethau sy'n hwyl yn yr ystafell ddydd.

Mae teledu yn yr ystafell ddydd.



Mae gennym ystafell synhwyrdd. Gallwch ymlacio yn yr ystafell synhwyrdd.



Mae gennym ystafell ymwelwyr.

Gallwch weld ffrendiau, teulu a staff sy'n eich helpu yn yr ystafell ymwelwyr.

## Staff yn Nhŷ Lafant:



Nyrsys,



Gweithwyr Cymorth,



A therapyddion.



Bydd staff Tŷ Lafant a'ch fîm cymunedol yn eich helpu i gynllunio'ch gofal.



Gallwch gyfeirio at eiriolaeth.

Gallwch siarad â'r staff am unrhyw bryderon.

## Dewch â'r pethau hyn gyda chi:



Dillad;

Gallwch olchi eich dillad yn yr uned.



Pethau ymolchi rydych chi'n eu hoffi.



Pethau personol;

Pethau sy'n eich gwneud chi'n hapus.



Arian neu gerdyn banc



Gellir defnyddio ffonau neu ddyfeisiau clyfar yn eich ystafell wely.



Byddwn yn gwirio bod eich eitemau'n ddiogel.

Gellir cadw rhai eitemau yn ddiogel i chi.

### **Peidiwch â dod â:**



Cyffuriau

Alcohol

Gwrthrychau miniog,

Fêps.



Ni allwch ysmegu y tu mewn i Dŷ Lafant.



Gallwch ysmegu sigarêts yn yr ardal ysmegu yn unig.



Mae'r ardal ysmegu yn yr ardd.

## Eich cadw'n ddiogel:



Nid yw'r drws ffrynt bob amser ar gau.

Weithiau mae'r drws ffrynt wedi'i gloi i'ch cadw'n ddiogel.

Bydd staff Tŷ Lafant yn dweud wrthy'ch am y drws.



Dim trais nac ymddygiad ymosodol yn Nhŷ Lafant.

Dim geiriau cas neu sarhaus.

Dim geiriau hiliol.

Dim bwlio.



Byddwn yn dweud wrth yr heddlu am unrhyw drosedd.

## Ymwelwyr:



Gall teulu a ffrindiau ymweld â chi.



Gall ymwelwyr ddefnyddio'r ystafell ymwelwyr.

Gall ymwelwyr ddefnyddio'r ardal allanol o flaen Tŷ Lafant.




Ni all plant ddod i mewn i Dŷ Lafant.

Gall plant ymweld â chi y tu allan i'r uned.



Dywedwch wrth staff pan fydd ymwelwyr yn dod.



## Anghenion Crefyddol a

### Diwylliannol:

Bydd staff yn eich cefnogi gydag anghenion crefyddol a diwylliannol.



### Deddf Iechyd Meddwl:

Gallwch ddod i Dŷ Lafant oherwydd y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae gennym wybodaeth hawdd ei darllen i'ch helpu i ddeall hyn.



### Caniatâd Gwybodaeth:

Gallwch ddweud wrth staff os ydych am rannu'ch gwybodaeth gyda theulu a ffrindiau.

Gallwch newid eich meddwl ar unrhyw adeg.



Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda

chi.



## Sut rydych chi'n teimlo:

Gallwch siarad â staff.

Gallwch gwyno os nad ydych yn hapus.

## Eiriolaeth:



Mae eiriolwyr yn eich helpu i ddweud beth rydych chi ei eisiau a'i angen. Gall eiriolwyr ymweld â chi yn Nhŷ Lafant.



Gall staff eich helpu i gysylltu â gwasanaethau eiriolaeth.

Gallwch gysylltu ag eiriolaeth yn breifat.

**Mae'r manylion cyswllt ar hysbysfwrdd y ward**



## Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC):

Mae AGIC yn gwirio bod Tŷ Lafant yn ddiogel ac yn rhoi gofal da.

Gallwch gysylltu â AGIC os ydych yn poeni am eich gofal.



## **Mae'r manylion cyswllt ar hysbysfwrdd y ward**

### **Os oes gennych unrhyw gwestiynau:**

Gallwch ddarllen y ffeil gwybodaeth i  
gleifion yn Nhŷ Lafant.

Gallwch siarad â'r staff.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/  
This document is available in English**